# DIOGELU PLANT
# YN YSGOLION ABERTAWE

## Polisi Diogelu ac
## Amddiffyn Plant Ysgol Gyfun Gwyr

Adolygwyd ym mis Gorffennaf 2025

## Cynnwys

Cyflwyniad.......................................................................................... Tudalen 3

Polisi Enghreifftiol …………………………………………………………………………Tudalennau 6 – 17

Atodiad A - Rolau a Chyfrifoldebau'r Unigolyn Diogelu Dynodedig..........................................................................................Tudalen 18

Atodiad B - Rolau a Chyfrifoldebau ar gyfer Cyrff Llywodraethu……………………………………………………………………..................Tudalen 22

Atodiad C - Diffiniadau …………………………………………………………………..….Tudalen 24

Atodiad CH – Camfanteisio ar Ymddiriedaeth ……………………………………………………………………...............................…….Tudalen 30

Atodiad D – Proses Cyfarfod Strategaeth Cam-drin Proffesiynol. ……………………………………..........................................................Tudalen 32

Atodiad DD – Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ...................................................................................................Tudalen 33

## Cyflwyniad

Mae'r polisi diwygiedig hwn yn cynnwys Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant enghreifftiol ar gyfer ysgolion a gwybodaeth gyfeiriol ychwanegol fel atodiadau.

Mae tudalennau 5 i 15 yn Bolisi Diogelu ac Amddiffyn Plant enghreifftiol a thudalennau 16 i 31 yn atodiadau (gwybodaeth ychwanegol). Mae'r polisi a'r atodiadau i'w personoli a'u mabwysiadu gan gyrff llywodraethu i'w defnyddio ym mhob ysgol. Mae'r dogfennau hyn wedi'u cyfuno fel eu bod yn hawdd eu defnyddio.

Mae'n rhaid i staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu yn ysgolion Abertawe gydnabod eu dyletswyddau cyfreithiol o dan ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 28 o Ddeddf Plant 2004, Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 a dogfen Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022 a chymryd eu cyfrifoldebau i amddiffyn a diogelu plant er budd pob plentyn o ddifrif.

Mae **rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn gosod dyletswydd ar 'bartneriaid perthnasol' a'r tîm troseddwyr ifanc perthnasol i roi gwybod i'r awdurdod lleol am blentyn sydd mewn perygl mewn amgylchiadau penodedig ac i 'bartneriaid perthnasol' roi gwybod i'r awdurdod lleol am unrhyw oedolyn sydd mewn perygl mewn amgylchiadau penodedig. Mae **adran 28 o Ddeddf Plant 2004** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u hasiantaethau partner i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Yn ogystal, mae **adran 175 o Ddeddf Addysg 2002** yn gofyn i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt drefniadau ar gyfer arfer eu swyddogaethau gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion. Dylai ysgolion ddarparu amgylchedd diogel a sefydlog i blant a phobl ifanc a'u dysgu am gadw'n ddiogel a sut i leisio'u barn os oes ganddynt ofidiau neu bryderon.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod gwaith diogelu ac amddiffyn plant effeithiol yn gofyn am weithdrefnau cryf, cadarn a diogel, cydweithio effeithiol rhwng asiantaethau, a gweithlu sy'n gymwys ac yn hyderus wrth ymateb i sefyllfaoedd.

Mae'r ddogfen bolisi hon yn darparu'r sail ar gyfer arfer diogelu effeithiol mewn ysgolion yn Abertawe. Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol neu wrth i newidiadau godi mewn deddfwriaeth allweddol.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r ddogfen Cadw Dysgwyr yn Ddiogel; Canllawiau Diogelu Cymru a'r canllawiau a geir yng nghyfrolau 5 a 6 Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar drin achosion unigol, ac mae'n cyd-fynd â gweithdrefnau cenedlaethol perthnasol eraill; mae hefyd yn adlewyrchu'r hyn y mae'r awdurdod lleol yn ei ystyried yn ymarfer proffesiynol diogel yn y cyd-destun hwn. Mae'n rhaid ystyried amddiffyn plant o fewn cyfrifoldebau diogelu ehangach gweithwyr proffesiynol sy'n cynnwys dyletswydd i gydweithio o dan Ddeddf Plant 2004 yn ogystal â'r ddyletswydd i adrodd am blant ac oedolion sydd 'mewn perygl' o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol

a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai gweithwyr proffesiynol hefyd ystyried eu rôl gyfreithiol o ran deddfwriaeth berthnasol arall, megis Canllawiau Dyletswydd Prevent (Cymru a Lloegr) 2023.

Mae gan yr holl ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau addysgol eraill yn Abertawe aelod o staff dynodedig sy'n gyfrifol am gydlynu camau gweithredu ar ddiogelu ac amddiffyn plant. Mae'r person hwn hefyd yn darparu ffynhonnell o arbenigedd a chyngor i'r holl staff. Adwaenir y person hwn yn Unigolyn Diogelu Dynodedig a dylai'r holl staff, gwirfoddolwyr, disgyblion, rhieni a gofalwyr ei adnabod yn ôl ei enw a'i olwg. Dylai pob lleoliad ddefnyddio taflenni gwybodaeth, posteri, lluniau a chynllunwyr ysgol i hyrwyddo'r wybodaeth ddiogelu hon i staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr.

Mae gan staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu rôl hanfodol i'w chwarae wrth adnabod, cofnodi ac adrodd am ddangosyddion cam-drin neu esgeulustod posib i'r Unigolyn Diogelu Dynodedig. Yna bydd yr Unigolyn Diogelu Dynodedig yn atgyfeirio ac yn cysylltu â'r swyddogion Amddiffyn a Diogelu Plant - Addysg, y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Pwynt Cyswllt Unigol.

**Adolygwyd ym mis Gorffennaf 2025**

## Cyflwyniad

Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn cydnabod yn llwyr y cyfraniad mae'n ei wneud i ddiogelu ac amddiffyn plant.

Mae tair prif elfen i'n polisi:

- Atal drwy'r addysgu a'r gefnogaeth fugeiliol a gynigir i ddisgyblion
- Gweithdrefnau ar gyfer adnabod achosion, neu achosion tybiedig, o niwed, cam-drin a/neu esgeulustod, ac adrodd amdanynt. Oherwydd ein cysywllt beunyddiol â phlant, mae staff yr ysgol mewn sefyllfa ddelfrydol i weld arwyddion allanol o gam-drin
- Cefnogaeth i ddisgyblion sydd efallai wedi cael eu cam-drin yn y gorffennol

Mae ein polisi'n berthnasol i'r **holl** staff, llywodraethwyr, ymwelwyr, gwirfoddolwyr (gan gynnwys rhieni sy'n wirfoddolwyr) a chontractwyr sy'n gweithio yn yr ysgol.

Bydd ein hysgol yn adolygu'r polisi'n flynyddol ac rydym yn ymrwymedig i ddilyn unrhyw arweiniad newydd.

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â’r holl ddeddfwriaethau, polisïau a chanllawiau cysylltiedig gan gynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl 2015
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Canllawiau Dyletswydd Prevent (Cymru a Lloegr) 2023
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Canllawiau Arfer Cymru Gyfan - Gweler Atodiad Dd (Diogelu Cymru)

## Datganiad Diogelu

Mae llywodraethwyr a staff Ysgol Gyfun Gŵyr yn gwbl ymroddedig i lynu wrth Is-adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 sy'n gofyn bod trefniadau ar waith gan Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu ysgolion a sefydliadau a gynhelir er mwyn iddynt arfer eu swyddogaethau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gŵyr yn ymateb i’r amcan cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel drwy:-

- Greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant a phobl ifanc;
- Nodi lle ceir pryderon lles plant a chymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â hwy, lle y bo'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill;
- Sicrhau y gwrandewir ar blant os ydynt yn mynegi pryderon; a
- Datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch plant drwy'r cwricwlwm.

Mae'r corff llywodraethu'n cydnabod, er mwyn cyflawni'r amcan, fod angen system y bwriedir iddi:

- Atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc;
- Hybu arfer diogel a herio arfer gwael ac anniogel;
- Nodi digwyddiadau lle mae sail i bryderu am les plentyn, a dechrau neu gymryd camau gweithredu priodol i'w gadw'n ddiogel; a
- Chyfrannu at waith partneriaeth effeithiol rhwng yr holl rai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Bydd llywodraethwyr a staff Ysgol Gyfun Gŵyr yn gweithio gyda'i gilydd a chydag asiantaethau eraill i gyflawni'r amcan uchod.

Yn Ysgol Gyfun Gŵyr bydd iechyd, diogelwch a lles pob plentyn o'r pwys mwyaf. Mae rhieni'n anfon eu plant i'r ysgol bob dydd gan ddisgwyl y bydd yr ysgol yn darparu amgylchedd diogel lle gall eu plant ffynnu. Mae'r corff llywodraethu a staff yr ysgol felly'n gwneud pob ymdrech i sicrhau y gwireddir y disgwyliad hwn. Er mwyn gwneud hyn, a chydnabod cwmpas diogelu, mae amrywiaeth eang o fesurau a pholisïau ar waith.

Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn cydnabod gwerth y gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant. Rydym yn ymrwymedig i gydweithio â theuluoedd a gwasanaethau ymyrryd yn gynnar. Mae'n hanfodol y parheir i gyfathrebu'n rheolaidd â theuluoedd er mwyn gweld, cyn gynted â phosib, pryd y gall gwasanaethau eraill gynnig cefnogaeth. Bydd y corff llywodraethu a staff yr ysgol yn gweithio gyda theuluoedd i wneud atgyfeiriadau priodol ac amserol ar gyfer gwasanaethau ymyrryd yn gynnar.

## Ataliaeth

Rydym yn cydnabod bod hunan-barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a chyfathrebu ag oedolyn y gall plentyn ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu disgyblion. Yn Ysgol Gyfun Gŵyr rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau diogelu i atal amhariad ar iechyd a datblygiad disgyblion a sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol. Dyma pam rydym yn sicrhau bod diogelu'n cael lle amlwg yn ein holl bolisïau a gweithdrefnau.

Yn ogystal, bydd yr ysgol yn:

- Sefydlu ac yn cynnal ethos lle mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad a bod rhywun yno i wrando arnynt
- Sicrhau bod y plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atynt os ydynt yn poeni neu'n cael anhawster
- Cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) a dysgu am iechyd a lles yn y cwricwlwm sy'n rhoi cyfle i blant gael y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddiogel rhag niwed, cam-drin ac esgeulustod, a gwybod at bwy i droi am help

- Sicrhau bod cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) statudol Cymru yn cael ei gyflwyno mewn modd personol ac sy'n briodol i oedran.

## Cyfrinachedd

Mae angen deall materion cyfrinachedd os bydd plentyn yn datgelu gwybodaeth ei fod yn cael ei niweidio. Efallai bydd plentyn yn teimlo'n ddigon hyderus i ddweud rhywbeth yn gyfrinachol wrth aelod o staff dim ond os yw'n teimlo na fydd yr wybodaeth honno'n cael ei datgelu i unrhyw un arall. Fodd bynnag, mae gan staff addysg gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant â'r asiantaethau statudol pan fydd plentyn yn profi niwed.

Mae'n bwysig bod yr holl staff yn ymdrin â hyn yn sensitif ac yn esbonio i'r plentyn bod yn rhaid iddynt ddweud wrth y bobl briodol a all ei helpu, ond y byddant yn dweud wrth y rhai y mae angen eu hysbysu yn unig, er mwyn iddynt allu helpu. Dylent dawelu meddwl y plentyn drwy gydol y broses.

Byddwch yn ymwybodol y gall fod wedi cymryd cryn dipyn o ddewrder ar ran y plentyn i ddatgelu'r wybodaeth, a'i fod yn bosib ei fod hefyd yn profi emosiynau sy’n groes i’w gilydd sy'n cynnwys teimladau o euogrwydd, embaras, annheyrngarwch (os yw'n cael ei niweidio gan rywun sy'n agos ato) a loes.

Cofiwch gyfrifoldeb bugeiliol y gwasanaeth addysg. Sicrhewch mai'r rhai â chysylltiad proffesiynol yn unig, e.e. yr Unigolyn Diogelu Dynodedig, y dirprwy Unigolyn Diogelu Dynodedig a'r Pennaeth sydd â mynediad at gofnodion amddiffyn plant. Dylid eu cadw’n ddiogel dan glo ac ar wahân i brif ffeil y plentyn ar bob adeg arall neu, lle defnyddir systemau electronig fel MyConcern, dylai fod cyfyngiadau priodol ar waith i sicrhau cyfrinachedd.

Dylid darparu mynediad at wybodaeth ddiogelu mewn ysgol ar sail 'angen gwybod' yn unig er budd diogelu plant.

Yr Unigolyn Diogelu Dynodedig yn yr ysgol hon yw: Mr Rhodri Evans – (01792) 977 104 neu EvansR554@hwbcymru.net

Y Dirprwy Unigolyn Diogelu Dynodedig yn yr ysgol hon yw: Mrs Sara Thomas (01792) 977 105 neu ThomasS643@hwbcymru.net

## Gweithdrefnau

**Dylid dilyn y rhain os bydd datgeliad/pryder amddiffyn plant.**

Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru a gymeradwywyd gan Fwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg. Bydd yr ysgol yn:

- Sicrhau bod ganddi Unigolyn Diogelu Dynodedig sydd wedi derbyn yr hyfforddiant priodol. Ar gyfer Unigolion Diogelu Dynodedig, hyfforddiant Amddiffyn a Diogelu Plant Grŵp C yw hwn (i'w gwblhau bob dwy flynedd ac yn ddibynnol ar gwblhau Grŵp A a Grŵp B). Y bobl hyn yw Mr Rhodri Evans a Mrs Sara Thomas.

- Cydnabod rôl yr Unigolyn Diogelu Dynodedig ac yn trefnu cefnogaeth a hyfforddiant ar lefelau uwch yn unol â'i lefel gyfrifoldeb.

- Sicrhau bod pob aelod o staff a llywodraethwr yn gwybod:

    - Enw'r Unigolyn Diogelu Dynodedig a'i rôl a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant

    - Bod ganddo gyfrifoldeb unigol am adrodd am bryderon amddiffyn plant gan ddefnyddio'r sianelau cywir ac o fewn yr amserlen y cytunir arni o fewn Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

    - Sut i ymdrin â'r pryderon hyn pan na fydd yr Unigolyn Diogelu Dynodedig ar gael.

- Sicrhau bod aelodau o staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o niwed, cam-drin ac esgeulustod, a'u bod yn gwybod sut i ymateb i blentyn a all ddatgelu gwybodaeth neu rannu pryder.

- Sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth o gyfrifoldeb yr ysgol a'r staff dros ddiogelu ac amddiffyn plant drwy nodi ei goblygiadau ym mhrosbectws yr ysgol.

- Sicrhau bod yr holl staff yn cyflawni unrhyw hyfforddiant ymwybyddiaeth o Ddiogelu ac Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol y cytunwyd arno sy'n berthnasol i'w rôl, gan gynnwys:

    - Hyfforddiant Amddiffyn a Diogelu Plant - Grŵp A (yr holl staff – i'w gwblhau bob tair blynedd)
    - Hyfforddiant Amddiffyn a Diogelu Plant - Grŵp B (yr holl staff addysgu, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu a staff cynorthwyol sy'n gweithio ar sail un i un neu mewn grwpiau gyda phlant – i'w gwblhau bob tair blynedd ac yn ddibynnol ar gwblhau hyfforddiant Grŵp A)
    - Hyfforddiant Dyletswydd Prevent - Cwrs 1: Ymwybyddiaeth (yr holl staff – i'w gwblhau bob tair blynedd)
    - Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (yr holl staff – i'w gwblhau bob tair blynedd)

- Am ragor o wybodaeth, gweler y canllaw Hyfforddiant Amddiffyn a Diogelu Plant - Addysg Abertawe (Awst 2025)

- Darparu sesiwn friffio ar ddiogelu ac amddiffyn plant o leiaf unwaith y tymor i'r holl staff fel eu bod yn gwybod:

    - Eu cyfrifoldeb unigol
    - Y gweithdrefnau lleol cytunedig
    - Yr angen i fod yn wyliadwrus wrth nodi achosion o niwed, cam-drin ac esgeulustod
    - Sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu achos o niwed, cam-drin ac esgeulustod
    - Unrhyw faterion amddiffyn plant newydd neu newid i weithdrefnau

- Hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol lleol os:

    - Caiff disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant ei wahardd naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol

    - Yw disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol o'r ysgol heb esboniad am fwy na deuddydd (neu un diwrnod yn dilyn y penwythnos)

- Gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol a chydweithio yn ôl y galw gydag ymholiadau ynghylch materion diogelu ac amddiffyn plant

- Mynd i gyfarfodydd strategaeth, cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol/adolygu a grwpiau craidd (gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau)

- Ysgrifennu adroddiad diogelu ar gyfer disgyblion unigol sy'n destun cynhadledd amddiffyn plant i'w rannu ag aelodau'r teulu (fel y bo'n briodol) a chadeirydd y gynhadledd o fewn amserlenni penodedig

- Cyfrannu a bod yn gyfrifol am gamau gweithredu'r ysgol mewn cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth plant, cynlluniau diogelwch a chynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau lles fel y bo'n briodol

- Cadw cofnodion cynhwysfawr o bryderon am blant (gan nodi dyddiad, digwyddiad a cham gweithredu), hyd yn oed lle nad oes angen cyfeirio'r mater at y Gwasanaethau Cymdeithasol neu asiantaeth allanol arall

- Sicrhau y cedwir yr holl gofnodion yn ddiogel

- Glynu wrth y gweithdrefnau a ddisgrifir yng nghanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022

- Sicrhau y dilynir gweithdrefnau recriwtio a dethol diogel a bod modd i staff gael mynediad at hyfforddiant priodol

- Penodi llywodraethwr ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn Plant a fydd yn goruchwylio polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant yr ysgol yn ymarferol, gan hysbysu swyddogion Amddiffyn a Diogelu Plant yr ALl am y penodiad

Sicrhau bod gweithdrefn briodol ar waith ar gyfer ymwelwyr â'r ysgol, gan gynnwys staff asiantaeth a chontractwyr, gan gynnwys: asesiad risg wedi'i gwblhau, tystysgrif GDG, bathodyn ymwelwyr, rhannu gweithdrefnau diogelu'r ysgol, a phroses mewngofnodi ac allgofnodi gadarn. Os na chafwyd tystysgrif GDG, dylai'r ymwelydd fod yng nghwmni cydweithiwr priodol a chanddo dystysgrif GDG ar y safle.

## Llunio adroddiad/gwneud atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant

Pan fo pryderon o natur amddiffyn plant, dylid adrodd amdanynt dros y ffôn yn y lle cyntaf ar 01792 635700 (Abertawe). Dylid llenwi ffurflen Cais Ymarferydd am Wybodaeth o fewn 24 awr i'ch adroddiad ffôn, i'w chyflwyno drwy e-bost i'r Pwynt Cyswllt Unigol – singlepointofcontact@abertawe.gov.uk (Abertawe).

Ar gyfer pryderon ynghylch plentyn a all fod 'mewn perygl' neu y mae angen gofal a chymorth arno, gellir cyflwyno ffurflen cais ymarferydd heb alwad ffôn ymlaen llaw. Bydd pob adroddiad/atgyfeiriad Pwynt Cyswllt Unigol yn cael ei sgrinio a gellir ei glustnodi ar gyfer asesiad neu ei drosglwyddo i'r Ganolfan Cymorth Cynnar i'w drafod ac i ystyried y cynnig mwyaf priodol o ran cymorth.

Ar gyfer pryderon y tu allan i oriau swyddfa e.e. nosweithiau rhieni, gwibdeithiau etc gellir ffonio'r Tîm Dyletswydd Brys ar 01792 636888 (Abertawe) a dilyn hynny drwy lenwi ffurflen adroddiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r tîm Pwynt Cyswllt Unigol/Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Integredig o fewn 24 awr. Os na fydd gweithiwr cymdeithasol ar gael ar y rhif hwn, rhaid trosglwyddo pryder sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn uniongyrchol i'r heddlu ar 999. Ni ddylid aros tan y diwrnod gweithio nesaf cyn adrodd am bryder amddiffyn plant.

## Diffiniadau cam-drin plant, diogelu plant mewn amgylchiadau penodol

Mae diffiniadau cam-drin ar gael yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru ond maent hefyd ar gael i gyfeirio'n hawdd atynt yn Atodiad C, Diffiniadau a Dangosyddion Cam-drin Plant.

Mae ein hysgol yn cydnabod y gall rhai plant fod yn fwy agored i niwed ac mae gennym ddyletswyddau a chyfrifoldebau amddiffyn plant penodol mewn perthynas â hyn. Amlinellir yr amgylchiadau penodol yn fanylach ym Mhennod 4 canllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru.

## Ymdrin â datgeliad gan blentyn

**Derbyn**

- Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn sy'n cael ei ddweud, heb ddangos sioc nac anghrediniaeth Derbyniwch yr hyn sy'n cael ei ddweud. Peidiwch â gadael i unrhyw brofiadau o'r gorffennol o'r disgybl hwn ganiatáu i chi farnu ei ddatgeliad ymlaen llaw na'i annilysu.
- Peidiwch â cheisio ymchwilio i'r datgeliad. Eich dyletswydd fydd gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud a throsglwyddo'r wybodaeth

**Cysuro**

- Ewch ati i dawelu meddwl y plentyn. Byddwch yn onest bob amser a pheidiwch â gwneud addewidion na allwch eu cadw, er enghraifft: "Arhosa i gyda ti", neu "bydd popeth yn iawn nawr."
- Ceisiwch liniaru euogrwydd os yw'r disgybl yn cyfeirio ato. Er enghraifft, gallech ddweud: "Nid ti sydd ar fai. Nid dy fai di yw hyn."
- Peidiwch ag addo cyfrinachedd. Bydd dyletswydd arnoch i drosglwyddo'r wybodaeth ac mae angen i'r plentyn wybod hyn

**Ymateb**

- Gallwch ofyn cwestiynau ac efallai bydd angen i chi wneud hyn mewn rhai achosion. Fodd bynnag, nid cyfle yw hwn i holi'r plentyn yn fanwl a mentro i faes cwestiynu manwl a hirfaith. Y cyfan y mae angen i chi ei wybod yw pwyntiau amlycaf datgeliad y plentyn. Mae'n rhaid i unrhyw gwestiynau fod yn agored ac nid yn arweiniol - er enghraifft, defnyddiwch y model DED. **Dweda** wrthyf beth ddigwyddodd..... **Esbonia** sut oeddet ti'n teimlo.....**Disgrifia'r** sefyllfa......
- Peidiwch â beirniadu'r tramgwyddwr honedig oherwydd efallai bydd gan y plentyn gysylltiad emosiynol cryf â'r person hwn o hyd.

- Peidiwch â gofyn i'r disgybl ailadrodd ei honiad wrth aelod arall o staff. Os gofynnir iddo'i ailadrodd, gall deimlo nad yw'n cael ei gredu a/neu efallai bydd ei atgof o'r hyn a ddigwyddodd yn newid.

**Cofnodi**

- Gwnewch nodiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny. Cofnodwch y geiriau gwirioneddol a ddywedwyd gan y plentyn - peidiwch â'u hailgyfieithu i derminoleg oedolion yn siarad na cheisio gwneud synnwyr o strwythur yr hyn a ddywedwyd. Peidiwch â digio wrth unrhyw iaith sarhaus neu eiriau a ddefnyddir i ddisgrifio'r cam-drin.
- Adolygu'ch nodiadau i sicrhau nad ydych yn defnyddio iaith beio dioddefwyr yn anfwriadol.
- Sicrhewch fod eich enw, yr amser a'r dyddiad ar eich nodiadau a pheidiwch â'u dinistrio rhag ofn y bydd eu hangen ar lys.
- Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn defnyddio My Concern i gofnodi materion a phryderon sy’n ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant.
- Os gallwch, tynnwch ddiagram i ddangos safle unrhyw niwed gweledol ond peidiwch â gofyn i'r plentyn dynnu unrhyw ddilledyn at y diben hwn (mae swyddogaeth ar gyfer gwneud hyn ar gael ar MyConcern).
- Cofnodwch ddatganiadau a'r hyn a welsoch chi neu a glywsoch chi, yn hytrach na'ch dehongliadau.
- Peidiwch â gwneud rhagdybiaethau.

**Camau Olaf**

Ar ôl i chi ddilyn y canllawiau uchod, trosglwyddwch yr wybodaeth ar unwaith i'r Unigolyn Diogelu Dynodedig. Bydd nifer o opsiynau ar gael iddo wedyn, gan gynnwys cysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol lleol i ofyn iddynt beth ddylai ddigwydd nesaf

## Rheoli honiadau yn erbyn oedolion sy'n gweithio gyda phlant

Os gwneir honiad amddiffyn plant yn erbyn aelod o staff, mae'n rhaid i'r aelod staff sy'n derbyn yr honiad hwnnw drosglwyddo manylion y mater hwnnw ar unwaith i'r Pennaeth neu, yn ei absenoldeb, aelod o staff â chyfrifoldebau'r Pennaeth. Yna bydd y Pennaeth yn ffonio Swyddogion Diogelu Addysg yr ALl – Lisa Collins ar 07827 822700, Helen Nicholas ar 07385 226397 neu Simon Burman-Rees ar 07984 578686 – i drafod y camau nesaf yn unol â chanllawiau statudol a threfniadau lleol.

Os gwneir honiad amddiffyn plant posib yn erbyn y Pennaeth mae'n rhaid i'r aelod staff sy'n derbyn yr honiad hwnnw gysylltu â  Chadeirydd y Llywodraethwyr neu Swyddog Diogelu Addysg yr ALl drwy ffonio 07827 822700. Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gyfun Gŵyr yw Miss Aldyth Williams ac mae ei manylion cyswllt i'w gweld ar bosteri Ymwybyddiaeth Diogelu ymhob ystafell staff ledled yr ysgol.

Os yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn derbyn yr adroddiad, mae'n rhaid iddo ffonio Swyddogion Diogelu Addysg yr ALl – Lisa Collins ar 07827 822700, Helen Nicholas ar 07385 226397 neu Simon Burman-Rees ar 07984 578686.

Os nad yw'r Swyddogion Diogelu Addysg neu swyddog dynodedig arall ar gael, dylid trosglwyddo'r honiadau'n uniongyrchol i sylw'r Pwynt Cyswllt Unigol drwy ffonio 01792 636888.

Yn ogystal, bydd tîm Pwynt Cyswllt Unigol lleol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu cynghori pan fydd y sefyllfaoedd hyn yn codi.

Weithiau, bydd honiadau a wneir yn erbyn staff yn sbarduno ymateb diogelu yn unol â Rhan 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chynhelir Cyfarfod Pryderon Proffesiynol.

**Camddefnyddio Swydd o Ymddiriedaeth –**
Gweler Atodiad CH - Camfanteisio ar Ymddiriedaeth
Gweler Atodiad D - Siart lif Pryderon Proffesiynol

## Cefnogi'r disgybl sydd mewn perygl

Mae cam-drin plentyn yn drychinebus i'r plentyn a gall hefyd arwain at ofid a phryder i staff sy'n ymwneud â'r mater. Rydym yn cydnabod y gall hyn effeithio'n fawr ar blant sydd mewn perygl, sy'n cael eu cam-drin neu eu niweidio, neu sy'n dyst i drais. Efallai mai Ysgol Gyfun Gŵyr yw'r unig elfen gadarn, ddiogel a dibynadwy ym mywydau'r plant sydd mewn perygl. Pan fyddant yn yr ysgol, efallai na fydd plant yn gallu rheoli eu hemosiynau'n briodol a gall eu hymddygiad ddod yn heriol neu gallant fynd yn dawedog. Serch hynny, bydd yr ysgol yn ceisio cefnogi'r disgybl drwy:

- Gydnabod ymddygiad fel symptom o'i les
- Defnyddio strategaethau rheoli emosiynol yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol.
- Deall effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Cymryd yr holl bryderon a datgeliadau o ddifrif
- Enwebu person cyswllt a fydd yn hysbysu pob parti sy'n gysylltiedig â'r mater ac yn bwynt cyswllt canolog
- Ymateb gyda chydymdeimlad i unrhyw gais gan ddisgyblion neu staff am amser i ymdrin â gofid neu bryder

- Cynnal cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth angenrheidiol ag unigolion ac asiantaethau perthnasol yn unig
- Cadw cofnodion a hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y bydd pryder wedi ailgodi
- Storio cofnodion yn ddiogel
- Cynnig manylion llinellau cymorth, cwnsela neu lwybrau cefnogaeth allanol eraill
- Cydweithio'n llawn ag asiantaethau statudol perthnasol
- Darparu anogaeth a chefnogaeth les yn unol â'i anghenion lles unigol
- Lle bydd aelod o staff yn destun honiad a wnaed gan ddisgybl, caiff pobl gyswllt ar wahân eu henwebu i osgoi gwrthdaro o ran budd

Mae cynnwys y cwricwlwm yn annog hunan-barch a hunangymhelliad fel a amlinellir ym Mhennod 2 canllawiau statudol 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022' Llywodraeth Cymru.

- Hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel
- Rhoi ymdeimlad o werth i'r disgyblion

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ganddynt bolisi priodol i gefnogi plant i reoli eu hymddygiad a rhaid bod ymateb yr ysgol i'w hymddygiad yn gymesur i'w profiadau. Dylid llunio'r polisi hwn ochr yn ochr â pholisi Parch, Hawliau a Chyfrifoldeb yr awdurdod lleol. Bydd Ysgol Gyfun Gŵyr yn:

- Sicrhau bod yr holl staff yn cytuno ar ymagwedd gyson sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn ond nad yw'n niweidio ymdeimlad o hunanwerth y disgybl

- Cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r disgybl fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, y Gwasanaethau Cefnogi Ymddygiad, y Gwasanaeth Lles Addysg, Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd, rhwydweithiau Ysgolion Bro a gwasanaethau eiriolaeth yn ogystal â gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal (Canolfannau Cymorth Cynnar)

Pan fydd disgybl sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn gadael yr ysgol, yn ogystal â'r drefn safonol o drosglwyddo gwybodaeth i'r ysgol newydd, bydd yr Unigolyn Diogelu Dynodedig yn cysylltu'n ddi-oed â'r Unigolyn Diogelu Dynodedig yn yr ysgol newydd er mwyn rhoi gwybod iddo fod y plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Os yw'r plentyn yn symud i'r ardal o awdurdod lleol arall, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol (Cydlynydd Cynllun Amddiffyn, Gofal a Chefnogaeth) yn hysbysu'r adran awdurdod lleol berthnasol fel y gellir rhoi'r plentyn ar gofrestr amddiffyn plant dros dro o fewn tridiau ac yna gofyn am gynhadledd amddiffyn plant 'trosglwyddo', ar yr amod bod y plentyn yn symud i'r ardal ar sail barhaol ac/neu os yw'r teulu'n bwriadu aros yn yr ardal newydd am gyfnod hwy na 12 wythnos yn unig. Mae'n rhaid i'r Unigolyn Diogelu Dynodedig rannu'r holl gofnodion amddiffyn plant a gedwir gan yr ysgol â'r Unigolyn Diogelu Dynodedig sy'n derbyn y plentyn yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 10/2006.

Yn ogystal, os yw plant ar y gofrestr amddiffyn plant neu'n destunau ymyriadau statudol ac maent yn symud ysgolion drwy drefniadau pontio neu symudiad wedi'i reoli, dylai'r Unigolyn Diogelu Dynodedig sicrhau bod yr Unigolyn Diogelu Dynodedig sy'n derbyn yn cael ei hysbysu'n llawn o'r ymyriadau hynny a chyfrifoldebau'r ysgol fel y'u nodir yn y cynlluniau amddiffyn/gofal a chymorth.

## Cosb Gorfforol

Daeth Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 i rym ar 21 Mawrth 2022. Nid yw'n creu trosedd newydd, ond mae'n diddymu amddiffyniad "cosb resymol" yn y troseddau ymosod a churo presennol yn erbyn plentyn.

Mae cosb gorfforol yn cynnwys smacio, taro, slapio, ysgwyd neu gosbi plentyn fel arall gan ddefnyddio grym corfforol. Mae'r newid yn golygu y bydd pob cosb gorfforol i blant yn anghyfreithlon yng Nghymru, gan gynnwys gan rieni, gofalwyr ac unrhyw un arall sy'n gweithredu in loco parentis mewn unrhyw leoliad yng Nghymru.

Mae'n ofynnol bod ein hysgol yn gweithredu o fewn y gyfraith drwy adrodd am unrhyw achosion o gosb gorfforol y mae'n dyst iddynt a gweithio gyda'r gwasanaethau statudol a'r heddlu lle bo hynny'n briodol i gefnogi teuluoedd pan dderbynnir datgeliad sy’n ymwneud â chosb gorfforol neu fathau eraill o niwed.

## Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)/'Operation Encompass.'

Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth cam-drin domestig yng Nghymru - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn ogystal â chanllawiau’r Swyddfa Gartref o dan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 lle dylai plant sy’n byw gyda cham-drin domestig gael eu hystyried yn ddioddefwyr. Rydym yn cydnabod bod disgyblion sy’n byw mewn sefyllfaoedd o gam-drin domestig yn debygol o fod yn dioddef trawma, efallai'n teimlo’n ofnus neu’n nerfus ac yn llai tebygol o gyflawni yn yr un ffordd â disgyblion nad ydynt yn byw mewn amgylchiadau o’r fath. Mae ein hysgol yn ymroddedig i ymateb i ddisgyblion o’r fath gyda pholisïau diogelu ac amddiffyn plant mewn cof.

Mae ein hysgol yn gweithio’n agos gyda swyddogion Heddlu De Cymru i ymateb i ddisgyblion sydd efallai wedi profi cam-drin domestig gartref dan brosesau ‘Operation Encompass’. Os bydd heddweision yn mynd i gartref lle nodir cam-drin domestig a bod plant yn bresennol neu y cofnodir eu bod yn byw yn y cyfeiriad, byddant yn cyflwyno adroddiad ‘Operation Encompass’ i ysgol y plentyn fore trannoeth. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion y cyflawnwr a'r dioddefwr honedig ynghyd â chrynodeb byr o'r rheswm dros gysylltu â'r heddlu. Diben yr adroddiad hwn yw galluogi ysgolion i ddeall pam y gall disgyblion fod yn teimlo’n bryderus a/neu’n isel, ac i ddarparu anogaeth a chefnogaeth les briodol ar yr adeg yr oedd ei

hangen arnynt fwyaf. I gael rhagor o wybodaeth am *'Operation Encompass'*, cliciwch: [Home : Operation Encompass]

## Adolygu

Caiff y polisi a'r atodiadau hyn eu hadolygu gan yr awdurdod lleol ac yna caiff y polisi ei gadarnhau'n flynyddol mewn cyfarfod llywodraethu llawn a'i gofnodi yn y cofnodion. I baratoi ar gyfer yr adolygiad hwn, efallai bydd yr Unigolyn Diogelu Dynodedig yn dymuno rhoi gwybodaeth i'r corff llywodraethu am y canlynol:

- Newidiadau i weithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant;
- Yr hyfforddiant a gyflawnwyd gan yr holl staff a llywodraethwyr yn y 12 mis blaenorol;
- Nifer y digwyddiadau Amddiffyn Plant a gafwyd yn yr ysgol yn y deuddeg mis blaenorol (heb fanylion nac enwau);
- Ble a sut mae Amddiffyn Plant yn ymddangos yn y cwricwlwm;
- Gwersi a ddysgwyd o achosion.

## Cwynion

Mae gan yr ysgol Weithdrefn Gwynion ar waith sy'n seiliedig ar y model a gynhwysir yng nghylchlythyr Llywodraeth Cymru: 011/2012, Gweithdrefnau Cwynion i Gyrff Llywodraethu mewn Ysgolion yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r weithdrefn gwynion yn cynnwys gwybodaeth i blant fel y gall plant, staff a'r cyhoedd gyflwyno'u cwynion, mewn perthynas â'r ysgol, gan gynnwys cwynion a phryderon diogelu, ynghylch y ffaith nad oes camau gweithredu diogelu wedi'u cymryd

Llofnodwyd:

Cadeirydd y Llywodraethwyr: ________________________ Dyddiad: _________________

Pennaeth: ______________________________ Dyddiad: _________________

Dyddiad adolygu: ________________________

## Atodiad A

### Cyfrifoldebau'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD)

Dylai pob ysgol nodi Unigolyn Diogelu Dynodedig â chyfrifoldeb arweiniol am reoli materion ac achosion amddiffyn plant. Dylai'r Unigolyn Diogelu Dynodedig wybod sut i adnabod a nodi arwyddion cam-drin ac esgeulustod a gwybod pryd y bydd yn briodol i roi gwybod i'r asiantaethau ymchwilio perthnasol. Mae'r rôl yn ymwneud â darparu cyngor a chefnogaeth i staff eraill, adrodd wrth asiantaethau eraill a gweithio gyda hwy fel bo angen. Nid rôl yr Unigolyn Diogelu Dynodedig yw ymchwilio i honiadau, ond rhaid iddo hysbysu'r Pennaeth o'r holl faterion amddiffyn plant yn y sefydliad.

Nid oes angen i'r Unigolyn Diogelu Dynodedig fod yn athro, ond rhaid iddo fod yn uwch-aelod o dîm arweinyddiaeth yr ysgol, a chanddo'r statws a'r awdurdod o fewn y sefydliad i gyflawni dyletswyddau'r swydd. Bydd hyn yn cynnwys neilltuo adnoddau i faterion amddiffyn plant, a lle y bo'n briodol, gyfarwyddo aelodau eraill o staff. Gall fod angen defnyddio trefniadau cefnogi myfyrwyr eraill wrth ymdrin ag achosion unigol, fodd bynnag yr Unigolyn Diogelu Dynodedig sy'n parhau i fod yn gyfrifol am y maes gwaith hwn.

Dylai pob ysgol sicrhau bod dirprwy ar gael i weithredu yn absenoldeb yr Unigolyn Diogelu Dynodedig. Mewn ysgolion a drefnir ar safleoedd gwahanol neu ysgolion a chanddynt strwythurau rheoli gwahanol, dylai fod Unigolyn Diogelu Dynodedig ar gyfer pob rhan neu safle. Mewn sefydliadau mawr, neu'r rheini â nifer mawr o bryderon amddiffyn plant, gall fod angen nifer o ddirprwyon i ymdrin â'r cyfrifoldebau.

Mae'n rhaid i'r ysgol wneud trefniadau hefyd i gael rhywun i gyflenwi yn lle'r Unigolyn Diogelu Dynodedig pan na fydd ar gael. Ym mhob achos, bydd dirprwy Unigolyn Diogelu Dynodedig ar gael ac mae'n bosib y bydd gan ysgolion mwy o faint dîm o staff sy'n gweithio gyda'i gilydd y disgwylir iddynt ddirprwyo ar gyfer yr Unigolyn Diogelu Dynodedig yn ôl yr angen.

Bydd yr Unigolyn Diogelu Dynodedig yn cymryd cyfrifoldeb am arferion, polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol a'i ddatblygiad proffesiynol ei hunan gan weithio gydag asiantaethau eraill yn ôl yr angen. Dylai'r Pennaeth sicrhau bod yr Unigolyn Diogelu Dynodedig yn:

- Cael digon o amser ac adnoddau i gyflawni'r rôl yn effeithiol; dylai hyn gael ei ddiffinio'n glir yn nisgrifiad swydd deiliad y swydd
- Cwblhau lefelau uwch o hyfforddiant gan gynnwys hyfforddiant Unigolyn Diogelu Dynodedig/Unigolyn Diogelu a Enwir (Grŵp C) a bod ganddo fynediad at gefnogaeth briodol i ymgymryd â'r rôl, gan gynnwys swyddogion yr awdurdod lleol
- Cael amser i fynd i gynadleddau amddiffyn plant a darparu adroddiadau a chyngor iddynt, yn ogystal â grwpiau craidd a chyfarfodydd rhyngasiantaeth eraill yn ôl y galw
- Cyfrannu at ac yn cymryd cyfrifoldeb am gamau gweithredu'r ysgol mewn cynllun amddiffyn diogelwch neu ofal, cymorth a diogelu

**Adroddiadau**

Dylai'r Unigolyn Diogelu Dynodedig weithredu fel pwynt cyswllt a ffynhonnell o gefnogaeth, cyngor ac arbenigedd yn yr ysgol wrth benderfynu a ddylid llunio adroddiad drwy gydgysylltu ag asiantaethau perthnasol.

Mae'r Unigolyn Diogelu Dynodedig yn gyfrifol am lunio adroddiadau i'r asiantaethau ymchwilio perthnasol o ran honiadau o gamdriniaeth honedig. Lle mae'r rhain yn ymwneud ag achosion lle'r amheuir cam-drin neu lle ceir honiadau o gam-drin yn erbyn staff, y Pennaeth sy'n gyfrifol (neu os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth, yna Cadeirydd y Llywodraethwr sy'n gyfrifol) a nodir y broses yn nogfen Diogelu Cymru - Rhan 5 ac yn nogfen Diogelu Plant mewn Addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill (009/2014) yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae'r ddwy ddogfen hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ym mis Gorffennaf 2025. (Gweler Atodiad D)

**Cadw cofnodion**

Cyfrifoldeb yr Unigolyn Diogelu Dynodedig yw sicrhau y cedwir cofnodion ysgrifenedig manwl, cywir a diogel am blant os oes pryderon yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant. Mae'r cofnodion hyn yn gyfrinachol a dylid eu cadw ar wahân i gofnodion disgyblion. Dylent gynnwys cronoleg o bryderon, adroddiadau, cyfarfodydd, galwadau ffôn ac e-byst.

Pan fydd plant yn gadael y sefydliad, dylai'r Unigolyn Diogelu Dynodedig sicrhau bod ei ffeil amddiffyn plant yn cael ei hanfon i'r ysgol newydd cyn gynted â phosib, ond dylid ei throsglwyddo ar wahân i brif ffeil y disgybl.

**Cynyddu Ymwybyddiaeth**

Mae'r Pennaeth/Unigolyn Diogelu Dynodedig yn gyfrifol am sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gweld copïau o'r Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant. Mae hyn yn osgoi'r potensial o wrthdaro yn nes ymlaen drwy eu rhybuddio am rôl gofynion cyfreithiol yr ysgol a'r ffaith y gellir llunio adroddiadau am blant. Mae llawer o ysgolion yn cynnwys gwybodaeth am hyn yn y cyfarfodydd sefydlu i rieni newydd, yn eu prosbectws ac ar eu gwefan.

Mae'n arfer da i'r Unigolyn Diogelu Dynodedig ddarparu sesiwn friffio flynyddol a diweddariadau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff ar unrhyw faterion diogelu ac amddiffyn plant newydd neu newidiadau mewn gweithdrefnau lleol/rhanbarthol/cenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd am eu cyfrifoldebau, a pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol. Enghraifft arall o arfer da yw rhannu'r polisi ysgrifenedig â'r holl staff, a gofyn iddynt ddarllen y polisi a llofnodi i gadarnhau eu bod wedi'i ddarllen. Dylai'r holl gyfarfodydd staff gynnwys Diogelu fel eitem sefydlog ar yr agenda fel bod ymwybyddiaeth yn parhau'n uchel.

Dylai'r Pennaeth/Unigolyn Diogelu Dynodedig gydgysylltu â'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant fel y gall y llywodraethwr dynodedig ddweud wrth y corff llywodraethu am faterion diogelu. Ni ddylai adroddiadau i'r corff llywodraethu ymwneud ag achosion amddiffyn plant penodol, ond dylent adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu. Mae'n arfer da i'r llywodraethwr dynodedig a'r Unigolyn Diogelu Dynodedig gyflwyno'r adroddiad gyda'i gilydd.

Dylai'r Unigolyn Diogelu Dynodedig sicrhau bod polisi diogelu ac amddiffyn plant yr ysgol yn gyfoes ac yn cael ei adolygu'n flynyddol, a bydd yn gweithio gyda'r corff llywodraethu neu'r perchennog ynglŷn â hyn.

**Adolygu Polisïau**

Yn ogystal â pholisi'r ysgol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant, mae polisïau eraill sy'n berthnasol i ddiogelu, ac efallai y bydd yr Unigolyn Diogelu Dynodedig yn ymwneud â monitro effeithiolrwydd y rhain a pholisïau eraill i sicrhau bod yr ysgol yn diogelu ei holl ddisgyblion. Gall polisïau perthnasol eraill gynnwys:

- Presenoldeb
- Rheoli ymddygiad/emosiynau
- Côd ymddygiad staff
- Gwrthfwlio
- Gofal personol
- Recriwtio a dethol diogel
- E-ddiogelwch
- Ymyriad corfforol
- Cyfrinachedd
- Defnydd priodol o TGCh a pholisi cyfryngau cymdeithasol ar gyfer rhieni, disgyblion a staff
- Polisi Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb

Gellir cael cefnogaeth ac arweiniad pellach ar rôl yr Unigolyn Diogelu Dynodedig gan Swyddogion Diogelu ac Amddiffyn Plant - Addysg yr awdurdod lleol. Mae adnoddau a chanllawiau defnyddiol hefyd ar gael ar Hwb.

**Amddiffyn Plant a Hyfforddiant Amlasiantaeth**

Rôl yr Unigolyn Diogelu Dynodedig yw gweithio gyda'r Pennaeth i sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn:

- Cael mynediad at bolisi amddiffyn plant yr ysgol ac yn ei ddeall, yn enwedig staff newydd neu ran-amser a gwirfoddolwyr yn ogystal â staff arlwyo a glanhau
- Cael hyfforddiant sefydlu a gloywi sy'n cynnwys amddiffyn plant, dealltwriaeth o faterion diogelu gan gynnwys achosion o niwed, gam-drin ac esgeulustod.
- Gallu adnabod arwyddion a dangosyddion niwed

- Gwybod sut i ymateb yn effeithiol pan fydd ganddynt bryderon
- Gwybod sut i ymateb yn briodol i ddatgeliad
- Gwybod bod ganddynt gyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw bryderon yn syth wrth iddynt godi

Dylai'r Unigolyn Diogelu Dynodedig gadw cofnodion o ddyddiadau'r hyfforddiant, manylion y darparwr a chofnod o bresenoldeb staff yn yr hyfforddiant a dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i Swyddogion Diogelu ac Amddiffyn Plant - Addysg yr awdurdod lleol.

Dylai athrawon dderbyn hyfforddiant amddiffyn plant a diogelu fel rhan o'r cwrs hyfforddi sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC), ond bydd angen atgyfnerthu hyn gyda hyfforddiant pellach, neu hyfforddiant gloywi pan gânt eu penodi gyntaf. Mae'r Safonau SAC yn gyfres o ddatganiadau canlyniadau y mae'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant eu bodloni sy'n gysylltiedig â chyhoeddiadau a gofynion statudol eraill fel y bo'n briodol. Mae'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant allu cyflwyno tystiolaeth eu bod yn sefydlu amgylchedd dysgu pwrpasol i'r holl blant lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus. Dylid atgoffa'r holl staff yn rheolaidd o gôd ymddygiad CGA a'i berthynas ag ymarfer diogelu.

Mae gofyn hefyd i athrawon dan hyfforddiant ddangos proffesiynoldeb i sicrhau bod eu perthnasoedd â dysgwyr yn cael eu meithrin ar gyd-ymddiriedaeth a pharch, a chydnabod y bydd hyn yn helpu i fwyafu eu potensial dysgu. Disgwylir i athrawon dan hyfforddiant ddangos tystiolaeth o'r safon hon drwy allu dangos gwybodaeth am hawliau a hawliadau'r holl ddysgwyr ac ymwybyddiaeth ohonynt, fel y'u hamlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

Dylai staff a llywodraethwyr eraill gael hyfforddiant pan gânt eu penodi gyntaf. Dylai'r holl staff nad oes ganddynt gyfrifoldeb dynodedig am ddiogelu/amddiffyn plant, gan gynnwys athrawon, fynychu hyfforddiant gloywi addas ar gyfnodau rheolaidd a phriodol wedi hyn, i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfoes.

Mae asiantaethau unigol yn gyfrifol am sicrhau bod gan staff y gallu a'r hyder i gyflawni'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Bydd Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg yn gallu darparu cyngor ar y lefelau hyfforddiant gofynnol y mae eu hangen ar staff i sicrhau y gallant gydymffurfio â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol.

Diben hyfforddiant amlasiantaeth yw cyflawni gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc gan gynnwys:

- Dealltwriaeth a rennir o'r tasgau, y prosesau, yr egwyddorion, a'r rolau a chyfrifoldebau a amlinellir mewn canllawiau cenedlaethol a threfniadau lleol ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo'u lles.
- Gwasanaethau mwy effeithiol ac integredig ar lefel strategol ac achosion unigol
- Gwell cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol gan gynnwys dealltwriaeth gyffredin o dermau allweddol, diffiniadau a throthwyau ar gyfer gweithredu.
- Perthnasoedd gwaith effeithiol gan gynnwys y gallu i weithio mewn grwpiau neu dimau amlddisgyblaeth

- Gwneud penderfyniadau da yn seiliedig ar rannu gwybodaeth, asesu trylwyr, dadansoddiad beirniadol a barn broffesiynol.

Dylai'r Unigolyn Diogelu Dynodedig gael hyfforddiant yn brydlon mewn gweithdrefnau rhyngasiantaeth sy'n ei alluogi i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill ac sy'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol iddo gyflawni'i gyfrifoldebau. Dylai hefyd gyflawni hyfforddiant gloywi i gadw ei wybodaeth a'i sgiliau'n gyfoes.

## Atodiad B

| Cyfrifoldebau cyrff llywodraethu/perchnogion |
|---|

Mae cyrff llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau y rhoddir polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac am fonitro cydymffurfiaeth â'r polisïau hyn. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn unol â'r canllawiau 'Cadw dysgwyr yn ddiogel' ac adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

Dylai cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a pherchnogion ysgolion annibynnol sicrhau bod eu sefydliadau perthnasol yn gwneud y canlynol:

- Rhoi polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant effeithiol ar waith sy'n:
    - Cydymffurfio ag arweiniad yr awdurdod lleol a gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol/rhanbarthol
    - Cynnwys gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol (e.e. llety preswyl, gweithgareddau cymunedol ar safle'r ysgol, etc.)
    - Cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn
    - Sicrhau eu bod ar gael i rieni neu ofalwyr ar gais
    - Cael eu darparu mewn fformat addas ar gyfer oedran a dealltwriaeth plant, yn enwedig lle mae ysgolion yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol

- Gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod yr holl wiriadau perthnasol yn cael eu cyflawni ar staff newydd a gwirfoddolwyr a fydd yn gweithio gyda phlant, gan gynnwys geirdaon perthnasol a gwiriadau GDG lle bo hynny'n briodol.

- Sicrhau bod y Pennaeth a'r holl staff a gwirfoddolwyr parhaol sy'n gweithio gyda phlant yn cyflawni'r hyfforddiant priodol yn unol â'r Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni'u cyfrifoldebau diogelu ac amddiffyn plant yn effeithiol, a sicrhau ei fod yn gyfredol drwy gyflawni hyfforddiant gloywi.

- Rhoi arweiniad clir i staff a gwirfoddolwyr dros dro sy'n cyflenwi yn ystod absenoldebau tymor byr ac a fydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ynglŷn â threfniadau'r ysgol o ran diogelu ac amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau.

- Sicrhau bod y corff llywodraethu'n mynd ati'n ddi-oed i unioni unrhyw ddiffygion neu wendidau o ran trefniadau amddiffyn plant y tynnir ei sylw atynt gyda chefnogaeth a chyngor gan swyddog diogelu - addysg yr awdurdod lleol

- Sicrhau bod yr Unigolyn Diogelu Dynodedig, y llywodraethwr dynodedig a chadeirydd y llywodraethwyr yn cyflawni hyfforddiant mewn gweithio rhyngasiantaeth a ddarperir gan Fwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg, neu i safonau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd, a hyfforddiant gloywi i gadw eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfoes, yn ogystal â hyfforddiant diogelu/amddiffyn plant sylfaenol.

**Llywodraethwr Dynodedig**

Dylid nodi Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant i:

- Gymryd cyfrifoldeb am gefnogi'r Unigolyn Diogelu Dynodedig gyda materion Amddiffyn Plant
- Sicrhau bod y corff llywodraethu'n adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn flynyddol
- Sicrhau bod y corff llywodraethu/perchennog yn cynnal adolygiad blynyddol o'i bolisïau a'i weithdrefnau diogelu a sut mae'r dyletswyddau uchod wedi cael eu cyflawni

Er bod gan gyrff llywodraethu rôl wrth arfer eu swyddogaethau disgyblu o ran honiadau amddiffyn plant yn erbyn aelodau o staff, nid oes ganddynt rôl wrth ystyried achosion unigol yr ymchwilir iddynt dan drefniadau a nodir yn Diogelu Plant mewn Addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill (Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 009/2014) a Rhan 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i Gadeirydd y Llywodraethwyr yn ei rôl fel 'rheolwr llinell' y Pennaeth reoli honiadau yn erbyn y Pennaeth. Dylai Cadeirydd y Llywodraethwyr fynd ati i gael cyngor a chefnogaeth gan Swyddogion Diogelu ac Amddiffyn Plant - Addysg yr awdurdod lleol yn unol â dogfen Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022.

Er mwyn i'r corff llywodraethu gael polisi effeithiol ar waith ac i'r Llywodraethwr Dynodedig fod yn hyderus yn ei rôl, mae'n bwysig bod holl aelodau'r corff llywodraethu yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant perthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau a deall cyfrifoldebau diogelu ehangach. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol am rôl llywodraethwyr mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant ar wefan Llywodraethwyr Cymru.

# Atodiad C

## Diffiniadau a dangosyddion cam-drin plant

Beth yw cam-drin plant?

Mae cam-drin ac esgeulustod yn ffurfiau ar gam-drin plant. Caiff plentyn ei gam-drin neu ei esgeuluso pan fo rhywun yn achosi niwed sylweddol iddo neu'n peidio â gweithredu er mwyn atal niwed. Efallai y bydd plant yn cael eu cam-drin yn y teulu neu mewn sefydliad neu gymuned gan rai sy'n hysbys iddynt neu, yn llai cyffredin, gan ddieithryn. Plentyn yw rhywun sydd heb gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed eto. Mae 'plant' felly'n golygu 'plant a phobl ifanc' drwy'r holl ddogfen. Nid yw'r ffaith bod plentyn wedi cyrraedd 16 oed a'i fod efallai'n byw yn annibynnol yn newid ei statws na'i hawl i wasanaethau neu amddiffyniad o dan Ddeddf Plant 1989.

Mewn deddfwriaeth, diffinnir niwed sylweddol fel cam-drin plentyn neu amharu ar ei iechyd a'i ddatblygiad, o'i gymharu â'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol gan blentyn tebyg.

Dylai pawb:

- Fod yn effro i ddangosyddion posib niwed, cam-drin ac esgeulustod;
- Bod yn effro i'r perygl y gall plant ei wynebu oherwydd camdrinwyr;
- Rhannu eu pryderon fel y gellir casglu gwybodaeth i gynorthwyo wrth asesu anghenion plentyn a'i amgylchiadau;
- Gweithio gydag asiantaethau i gyfrannu at gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i ddiogelu a hybu lles y plentyn
- Parhau i gefnogi'r plentyn a'i deulu.

Mathau o gam-drin:

- Cam-drin Corfforol
- Cam-drin Rhywiol
- Cam-drin Emosiynol
- Esgeulustod
- Cam-drin Ariannol

## Cam-drin Corfforol

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldanu, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol i blentyn mewn ffordd arall. Gall niwed corfforol ddigwydd hefyd am fod rhiant/gofalwr yn esgus symptomau afiechyd neu'n achosi'r symptomau hynny i blentyn neu oedolyn diamddiffyn sydd yn ei ofal. Disgrifir y sefyllfa hon yn gyffredin gan ddefnyddio termau fel salwch ffug neu wedi'i achosi gan eraill.

### Dangosyddion Cam-drin Corfforol:

- Cleisio, marciau neu anafiadau ar unrhyw ran o'r corff nad oes esboniad amdanynt
- Cleisiau amryfal - mewn clystyrau, yn aml ar ran uchaf y fraich neu ar ran allanol y forddwyd
- Llosgiadau sigaréts
- Marciau cnoadau dynol
- Esgyrn wedi torri
- Sgaldiadau, gyda marciau sblash am i fyny
- Llosgiadau niferus gydag ymyl sydd wedi'i diffinio'n glir.

### Gall newidiadau mewn ymddygiad hefyd fod yn arwydd o gam-drin corfforol:

- Ofn yr eir at rieni i ofyn am eglurhad
- Ymddygiad ymosodol neu byliau difrifol o dymer
- Gwingo wrth nesáu ato neu ei gyffwrdd
- Amharodrwydd i newid, er enghraifft, mewn tywydd poeth
- Iselder
- Ymddygiad encilgar
- Rhedeg i ffwrdd o'r cartref.

7

## Cam-drin rhywiol

Mae cam-drin rhywiol yn ymwneud â gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosodiad drwy dreiddio (er enghraifft trais neu ryw geneuol) neu weithredoedd heb dreiddiad megis mastyrbiad, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i ddillad. Gallant hefyd gynnwys gweithgareddau heb gyswllt, megis cynnwys plant wrth edrych neu gynhyrchu delweddau rhywiol, gwylio gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n rhywiol amhriodol, neu feithrin perthynas amhriodol â phlentyn wrth baratoi ar gyfer cam-drin (gan gynnwys ar y rhyngrwyd). Nid oedolion gwrywaidd yn unig sy'n cam-drin yn rhywiol. Gall menywod hefyd gyflawni gweithredoedd o gam-drin rhywiol, fel y gall plant eraill hefyd.

### Dangosyddion Cam-drin Rhywiol:

- Poen neu gosi ar yr organau cenhedlu
- Cleisio neu waedu ger yr organau cenhedlu
- Clefyd a drosglwyddir yn rhywiol
- Haint neu redlif o'r wain
- Poen yn y stumog
- Anghysur wrth gerdded neu eistedd
- Beichiogrwydd

### Mae newidiadau mewn ymddygiad a all hefyd fod yn arwydd o gam-drin yn cynnwys:

- Newidiadau sydyn neu ddiesboniad mewn ymddygiad, e.e. bod yn ymosodol neu’n dawedog
- Ofn cael ei adael gyda pherson penodol neu grŵp o bobl
- Cael hunllefau
- Rhedeg i ffwrdd o'r cartref, gwybodaeth rywiol sydd y tu hwnt i'w oed neu ei lefel ddatblygiadol
- Darluniau neu iaith rywiol
- Problemau bwyta fel gorfwyta neu anorecsia
- Hunan-niweidio neu lurguniad, weithiau'n arwain at ymgais i ladd ei hun
- Dweud bod ganddo gyfrinachau na all ddweud wrth neb amdanynt
- Dim caniatâd i gael ffrindiau (yn enwedig yn ystod y glasoed)

## Cam-drin emosiynol

Cam-drin emosiynol yw trin plentyn yn emosiynol wael yn barhaus fel bod hynny'n achosi effaith andwyol ddifrifol barhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall gynnwys cyfleu i'r plentyn ei fod yn ddiwerth neu'n ddigariad, yn annigonol neu mai ei unig werth yw ei fod yn diwallu anghenion person arall. Gall gynnwys gosod disgwyliadau ar blentyn sy'n anaddas i'w oed neu ei ddatblygiad. Gall gynnwys peri i blant deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, neu ecsbloetio neu lygru plentyn.

### Dangosyddion Cam-drin Emosiynol:

- Ymddygiad niwrotig e.e. pwdu, troi'r gwallt, siglo
- Ddim yn gallu chwarae
- Bod ag ofn gwneud camgymeriadau
- Anhwylderau lleferydd sydyn
- Hunan-niweidio
- Ofni yr eir at riant ynglŷn â'i ymddygiad
- Oedi datblygiadol o ran cynnydd emosiynol

### Gall newidiadau mewn ymddygiad a all fod yn arwydd o esgeulustod gynnwys:

- Eithafion goddefolrwydd neu ymosodedd
- Gorymateb i gamgymeriadau
- Hunan-ddirmyg ('Rwy'n dwp, yn hyll, yn ddi-werth' etc.)
- Ymateb amhriodol i boen ('Rwy'n haeddu hyn')

## Esgeulustod

Esgeuluso yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at amharu'n ddifrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall esgeuluso ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau gan y fam. Ar ôl i blentyn gael ei eni, gall esgeulustod olygu rhiant neu ofalwr sy'n methu darparu digon o fwyd, dillad a lloches (gan gynnwys ei wahardd o'r cartref neu ei adael); peidio ag amddiffyn y plentyn rhag niwed neu berygl corfforol ac emosiynol; peidio â sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys defnyddio rhoddwyr gofal annigonol); neu beidio â darparu mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso anghenion emosiynol sylfaenol plentyn, neu fethu ymateb iddynt.

### Dangosyddion Esgeulustod:

- Chwant bwyd yn gyson, dwyn bwyd oddi ar blant eraill o bryd i'w gilydd
- Yn frwnt neu'n drewi'n aml
- Colli pwysau, neu fod dan bwysau'n gyson
- Dillad anaddas ar gyfer yr amodau.

### Gall newidiadau mewn ymddygiad a all fod yn arwydd o esgeulustod gynnwys:

- Cwyno am fod yn flinedig drwy'r amser
- Peidio â gofyn am gymorth meddygol a/neu beidio â mynd i apwyntiadau
- Bod ag ychydig o ffrindiau
- Sôn am gael ei adael ar ei ben ei hun neu heb oruchwyliaeth.

## Cam-drin ariannol

**Mae'n cynnwys:**

- Rhywun yn dwyn arian neu eiddo arall oddi arno;
- Cael ei dwyllo
- Cael ei roi dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall
- Rhywun yn camddefnyddio’i arian neu eiddo arall
- Nid yw ei anghenion o ran gofal a chymorth, a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol, yn cael eu diwallu
- Cwynion bod eiddo personol ar goll

## Atodiad CH

### Camfanteisio ar Ymddiriedaeth

Mae Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi bod angen i holl staff addysg wybod bod ymddygiad amhriodol, gyda neu at blant, yn annerbyniol. Yn benodol, o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, mae'n drosedd i berson dros 18 oed (er enghraifft, athro/athrawes, gweithiwr ieuenctid) gael perthynas rywiol gyda phlentyn dan 18 oed lle mae'r person mewn sefyllfa o ymddiriedaeth i'r plentyn, hyd yn oed os yw'r berthynas yn gydsyniol. Mae hyn yn berthnasol os yw'r plentyn mewn addysg amser llawn ac mae'r person yn gweithio yn yr un sefydliad â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'n addysgu'r plentyn.

Yn y Gwasanaeth Addysg, mae'r holl berthnasoedd rhwng staff ac ysgolion yn seiliedig ar ymddiriedaeth. Yn gyffredinol, gellir disgrifio perthynas o ymddiriedaeth fel un lle mae un person mewn swydd gyfrifol neu mae ganddo ddylanwad dros y llall, yn rhinwedd ei waith neu natur y gweithgaredd. Gall fod gan yr unigolyn sydd mewn swydd gyfrifol y pŵer i ganiatáu cynnydd neu fethiant. Gall y berthynas gael ei gwyrdroi gan ofn neu ffafr. Mae'n hanfodol i'r rhai mewn swyddi cyfrifol o'r fath ddeall y pŵer mae hyn yn ei roi iddynt dros y rhai maent yn gofalu amdanynt, a'r cyfrifoldeb y mae'n rhaid iddynt ei arfer o ganlyniad i hyn. Er bod perthynas o ymddiriedaeth yn bodoli, mae caniatáu i berthynas ddatblygu mewn ffordd a allai arwain at berthynas rywiol yn anghywir. Bydd perthynas rywiol yn y bôn yn anghyfartal mewn perthynas o ymddiriedaeth, ac mae felly'n annerbyniol. Mae hefyd yn annerbyniol oherwydd byddai'r berthynas o ymddiriedaeth 'broffesiynol' yn cael ei newid.

Mae Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygiad) 2000 yn nodi cyfres o alwedigaethau y mae'r deddfau Manteisio ar Blant a Phobl Ifanc yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n gweithio mewn sefydliad addysgol.

Prif ddiben y darpariaethau Manteisio ar Blant a Phobl Ifanc yw darparu amddiffyniad i bobl ifanc 16 ac 17 oed yr ystyrir eu bod yn agored iawn i sefyllfa lle gall pobl mewn swydd gyfrifol neu swydd ag awdurdod yn eu bywydau gam-fanteisio arnynt.

Yn amodol ar nifer o ddiffiniadau cyfyngedig, mae'n drosedd i berson mewn swydd gyfrifol gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd rhywiol â pherson dan 18 oed y mae ganddynt berthynas o ymddiriedaeth ag ef, heb ystyried yr oed cydsynio, hyd yn oed os yw sail eu perthynas yn gydsyniol.

Mae perthynas yn bodoli lle mae aelod o staff neu wirfoddolwr mewn swydd lle mae ganddo bŵer neu ddylanwad ar bobl ifanc 16 ac 17 oed yn rhinwedd y gwaith neu natur y gweithgaredd a wneir.

Mae'r egwyddorion yn berthnasol, beth bynnag yw'r tueddfryd rhywiol: nid yw perthnasoedd cyfunrhywiol na gwahanrywiol yn dderbyniol mewn swydd o ymddiriedaeth. Maent yr un mor berthnasol i bawb, heb ystyried rhyw, hil, crefydd, tueddfryd rhywiol nac anabledd. Mae hwn

yn faes lle mae'n bwysig iawn osgoi unrhyw ystrydebau rhywiol neu eraill. Yn ogystal, mae'n bwysig cydnabod bod menywod yn ogystal â dynion yn gallu camddefnyddio swydd gyfrifol.

Dylai staff sicrhau bod eu perthynas â phobl ifanc yn briodol i'w hoed a'u rhyw, gan ofalu nad yw eu hiaith a'u hymddygiad yn ysgogi sylwadau neu ddyfaliad. Mae angen doethineb o ran agweddau, ymarweddiad ac iaith, yn arbennig lle bo gweithwyr o’r naill ryw yn ymdrin â bechgyn a merched yn eu llencyndod.

Atodiad D

**Rhestr o Dermau**

P - Pennaeth
CyLl - Cadeirydd y Llywodraethwyr
ALl - Awdurdod Lleol
AD - Adnoddau Dynol
CCTV - Teledu Cylch Cyfyng
CPP - Cyfarfod Pryderon Proffesiynol
AGC - Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol
GEG - Gwasanaeth Erlyn y Goron
AP - Amddiffyn Plant
DCGP - Dim Camau Gweithredu Pellach

## Atodiad D

**Gwnaed honiad/datgeliad parthed: aelod o staff/P**

Y P/CyLl yn trafod natur yr honiad â swyddog diogelu'r ALl i benderfynu ar lefel y pryder ac i gael cyngor ynghylch y camau nesaf

Nid yw'r trothwy AP/Diogelu wedi'i fodloni - proses

**Ymateb mewnol/ysgol**

**DCGP -** cefnogi'r aelod o staff

Cyngor/proses ddisgyblu ffurfiol AD yn unol ag arweiniad LlC

Cyngor/proses neu ymchwiliad anffurfiol AD, mwy o fentora a hyfforddiant yn cael ei gynnig ynghyd â monitro a chefnogaeth

Trothwy diogelu wedi'i fodloni - cyfeirio at y CPP a chysylltu ag AD ar gyfer asesiad risg cychwynnol. Os oes angen gwaharddiad, hysbysu'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr

**CPP cychwynnol (AGC, yr Heddlu, Addysg ac AD)**
I rannu gwybodaeth, ystyried troseddu, rhoi trefniadau diogelu/asesiadau risg ar waith, ystyried diogelwch/amddiffyn plant, ystyried lles yr aelod o staff a threfniadau cadw mewn cysylltiad (os nad ydyw yn y gwaith)

**Troseddu** - Dan arweiniad yr heddlu, Cynnig cyfle i'r teulu wneud cwyn ffurfiol, ystyried y camau nesaf, a chyfweld â'r aelod o staff dan rybudd

**Dim troseddu** - Dan arweiniad cyflogwr, canfod ffeithiau, cyfweld â staff/disgyblion/thystion, aelod o staff, CCTV, casglu'r holl wybodaeth sydd ar gael

**Cwyn Swyddogol** - Mae'r heddlu'n cyfweld â'r dioddefwr honedig a'r tramgwyddwr honedig ac yn casglu gwybodaeth ar gyfer penderfyniad GEG ynghylch cyhuddiad

Gwrandawiad Llys Troseddol

DCGP

**CPP - Adolygiad (AGC, yr Heddlu, Addysg ac AD)**
Ystyried penderfyniad GEG ynghylch cyhuddo (os yw'n briodol), ystyried yr holl ffeithiau a ganfuwyd gan y cyflogwr gan gynnwys barn yr aelod o staff, a chytuno ar ganlyniad

**Honiad wedi'i brofi** - tystiolaeth neu wybodaeth ddigonol i gadarnhau honiad neu bryder am ddiogelwch

**Honiad nas profwyd** - nid oes modd ei brofi'r naill ffordd neu'r llall. Nid yw hwn yr un peth â honiad di-sail

**Honiad di-sail** - dim pryder diogelu

**Honiad wedi'i ddyfeisio'n fwriadol/faleisus** - mae'n amlwg ei fod yn anwir

DCGP - cefnogi'r aelod o staff

Cyfeirio'n ôl at y broses fewnol/ysgol

**ATODIAD DD**
**Cyhoeddir Canllawiau Ymarfer Cymru o fewn gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.**

- Diogelu plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant (CTaB)
- Diogelu plant rhag arferion niweidiol sy’n ymwneud â thraddodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoelau
- Diogelu plant a all fod wedi’u masnachu
- Diogelu Plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt
- Diogelu Plant rhag cael eu hesgeuluso
- Diogelu Plant rhag cam-drin ar-lein
- Diogelu Plant lle mae pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol
- Diogelu Plant sy'n cael eu haddysgu gartref
- Diogelu Plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal
- Diogelu Plant rhag cam-fanteisio rhywiol
- Diogelu plant mewn perthynas â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020
- Diogelu plant rhag cael eu radicaleiddio

***(Diweddarwyd diwethaf: Chwefror 2021)***